

ECO'R WYDDFA

RHIF 22

NADOLIG 1977

Pris: 10c

Dim Ymchwiliad ~os na chawn ni siarad Cymraeg!

Bu'n rhaid gohirio ymchwiliad cyhoeddus oedd i'w gynnal yn Llanberis fis nesaf i'r bwriad i chwalu rhannau o gerreg y Gromlech, Bwlch Llanberis, am nad oedd Cyngor Sir Gwynedd yn barod i anfon neb yno i ymddangos ar ei ran.

Gwnaeth y Cyngor Sir y safiad hwn i ddangos eu protest.

Pan ddeallwyd fod y Swyddfa Gymreig wedi gwrthod anfon Archwiliwr a siaradai Gymraeg nac offer cyfieithu ar y pryd i Lanberis ar gyfer yr ymchwiliad.

Gobaith Cyngor Gwynedd yw gwella'r ffordd ym Mwlch Llanberis ac fel rhan o'r cynlluniau dymunant chwalu rhannau o gerreg y Gromlech.

Cafwyd gwrthwynebiad ffyrnig gan ddringwyr sy'n defnyddio'r Bwlch a mudiadau megis 'Snowdonia National Park Society' ac felly penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol gynnal

ymchwiliad cyhoeddus yn Festri Capel Gorffwysfa, Llanberis ar 10 Ionawr 1978 er mwyn i bawb gael cyfle i leisio barn.

ILDIO

Ond ymchwiliad Saesneg oedd yr ymchwiliad i fod. Mewn llythyr i'r Cyngor Sir dadleuai'r Swyddfa Gymreig mai Saeson fyddai'r rhan fwyaf o'r gwrthwynebwyr — gan hynny ni ellid "cyfiawnhau" darpariaeth i roi tystiolaeth yn Gymraeg yn eu tyb hwy.

'Roedd yr hysbysebion ffurfiol ar fin ymddangos yn y Wasg, ond ar ôl clywed am ddieter unfrydol a phenderfyniad digymrodedd y Cyngor Sir, ildiodd y Swyddfa Gymreig ar yr unfed awr ar ddeg a gohirio'r ymchwiliad hyd at ddyddiad sydd eto i'w bennu.

Dywedodd y Cynghorydd Sir lleol, Francis Jones mai ymwelwyr achlysurol yw mwyafrif y protestwyr, a mynegodd yn gryf fod cynlluniau eraill arfaethiedig y byddai o fudd i'r ardal yn cael eu gohirio oherwydd eu safiad.

Ymddengys i'r *Eco* mai "rhydd i bawb ei farn, ond iddo ei mynegi yn Saesneg!"

Camu 'mlaen



Eir Parry yw'r ferch sy'n gwisgo crys T rhaglen HTV "Camau Cantamil". Mae ganddi berffaith hawl i'w wisgo oherwydd fe enillodd Eir y rownd gyntaf nos Wener. Bydd yn camu 'mlaen eto nos Wener Rhagfyr 23. Merch Mr. a Mrs. E. Parry, Morwel, Ceunant yw Eir a hi oedd yn cynrychioli Ysgol Gynradd Llanrug ar y rhaglen.

TAITH I JAPAN

Mawrth 26 — Ebrill 8, 1978

Mae manylion llaw'n o'r daith o Gymru i'r Dwyrain Pell yn barod yn awr. Byddwn yn cychwyn o Lundain ar y 26ain o Fawrth, gan ymweld â Tokyo (hedfan dros Begwn y Gogledd), Taipei a galw yn Hong Kong am ddwy noson.

Taith fythgofiadwy — cwmni difyr o Gymry dan arweiniad T. Gwynn Jones. Ydych chi flys dwad? Y pris £798.00. Manylion pellach oddi wrth Selwyn Griffith, Crud yr Awen, Bethel.

Bydd y manylion am y daith i Ganada yn barod yn y flwyddyn newydd. Trip tair wythnos yn Awst fydd hwn.

PRESANT I SANTA



Llun: E. Parry.

Pwy ydi'r ferch brydferth? Dilys Wyn Owen, Tan y Castell, Bryngwyn, Llanrug, a enillodd gystadleuaeth "Miss Bangor City FC 1977". Mae Dilys wedi mynd drwodd i gystadleuaeth "Miss Wales" yn awr a dymunwn bob llwyddiant iddi yn Llandudno yn 1978. Newydd ddechrau cystadlu y mae Dilys ac mae Bwrdd Golygyddol yr *Eco* yn proffwydo dyfodol disglair iddi. Beth yw eich barn chi?

Pwy ydi'r dyn lwcus sy'n cofleidio Dilys? Pwy ond Santa Clos ei hun!



NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA I HOLL
DDARLLENWYR YR ECO

Daw'r rhifyn nesaf o'r ECO
allan ar y 26ain o
IONAWR 1978
Y deunydd i law'r Golygydd
erbyn
18fed o IONAWR

ECO'R WYDDFA

RHIF 22 NADOLIG 1977

Golygydd:
Arwel Jones,
Gwên-y-Wawr,
Glanffynnon,
Llanrug.

Ffôn: Caernarfon 3719

Is-olygydd:
Twrog Jones,
Pros Kairon,
Glanffynnon,
Llanrug.

Ffôn: Caernarfon 4051

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd,
Nant Peris.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

DIOLCH

Carwn ddiolch i'r canlynol am eu
cyfraniadau hael:
Br. a Fns. E.J. Owen, Eryri, 57 Salford
Rd., Ainsdale, Southport.
Y Parch. H. Thomas, Llannor.
£2: Mr. a Mrs. Jones, Padarn Stores,
Llanberis.
£5: I. Ellis Jones, Compton House,
Llanberis.

—Heddwch—

T.H. Jones,
2, Cremlyn,
Bethel.

Annwyl Olygydd,

Wrth weld y Nadolig yn agosau
a chlywed ar y newyddion am y
tanau a'r bomio yn yr ynys
Werdd. Sŵn rhyfeloedd yng
ngwlad yr Iesu, ceisiais wneud y
penillion hyn i gofio beth yw'r
Nadolig.

COFIA'R IESU
DDYDD NADOLIG

Un dydd yng ngwlad 'Riddewon
Fe glywyd canu iach
Y Doethion ddaeth o'r Dwyrain
At Breseb baban bach
Pob un yn rhoi ei anrheg
I'r Iesu yn ei grud
A gwawriodd ddydd Nadolig
Y cyntaf un i'r byd.

Ond gwan yw'r canu heddiw;
Helyntion yma thraw
A sŵn y lladd ymhobman
Drwy fomiau yn ddi-daw
Mae llawer gwaig yn wlo
A llawer mam yn drist,
Wrth weled heddiw'n nesu
Nadolig Diwrnod Crist.

Mae sôn am newyn heddiw
Mewn gwledydd hwnt i'r môr,
A phlant sydd heb anrhegion
Ar ddiwrnod mawr yr Iôr.
A ninnau'n llawn danteithion
A'r byrddau'n drwm dan wledd,
O, cofiwn am y gwledydd
Sydd heddiw'n llwm eu gwedd.

Pa bryd daw'r byd a'i bobl
I garu dynol ryw
Fel byddo'r holl drigolion
Yn 'nabod Cariad Duw?
O, boed i sŵn rhyfeloedd
Dawelu yn y gist,
Fel byddo byd o garu
Ar ddiwrnod geni Crist.

Twrm Bethel

LLYTHYRAU

Nadolig Llawen o AWSTRALIA

86, Kirby St.,
Rydalmere,
N.S.W. 2116,
Awstralia.

Annwyl Syr,

Diolch am anfon nodyn i
ddweud fod amser anfon arian ar
gyfer derbyn Eco'r Wyddfa. Rhaid
gwneud yn ddi-ymdroi rhag colli
un rhifyn.

Dymunaf ddiolch i bawb sy'n
gweithio mor galed i ddod â'r
papur i'n cyrraedd yma yn
Awstralia. Edrychwn ymlaen fel
teulu amdano, ac yn ddi-feth bron
mae'n gystadleuaeth galed pwy
yw'r cyntaf i'w gael.

Yn rhifyn mis Medi mae llun o
dîm pêl-droed Dinorwig 1912-13.
Bu'r llun yma yn ein meddiant am
beth amser, ond drwy anffawd, y
mudo yma, fe'i collyd. Mae hwn
yn llun â llawer perthynas ynddo,
ac fe roddodd fy mam (Mrs. Kate
Lewis, Maes Gwylfa, Deiniolen)
restr o'r enwau i mi, a dyma fel yr
ysgrifennodd hi:

Rhes ôl: (brawd dy dad): Wil Seth
(a aeth i Awstralia); Huw Lewis
(brawd dy dad); Wil Dafydd; Evan
Pendryffryn; Huw oedd yn byw yn
Nhyrfawnog a Huw Parry (tad
Percy Parry Gallt y foel).

Rhes 2: Evan a fu'n byw yn y
Foel, Willie a Tommy Bryn Sardis

(dau frawd iddi hi) Will Pant
Gwyn ac Evan TynBont.

Y Rhes flaen: Robin Terfyn;
Arthur Bryn Sardis (brawd arall
iddi); Twm Chwarael Fawr a
Tommy Rally (ef hefyd yn
berthynas).

Gwelwch felly pan fyddwch yn
rhoi llun yn y papur, ei fod yn
gwneud testun siarad am hen
amser am oriau i rai fel ni, rhai
sy'n gofyn cwestiynau heb obaith
am ateb.

Gobeithio caiff yr Eco weld
golau dydd bob mis am flynydd-
oedd maith. Ychydig o lythyrau a
gawn yn Gymraeg yma, ac
felly gellwch fentro fod Eco'r
Wyddfa, yn gyfrwng i gadw'r iaith
yn fyw yma. Siaradwn â'n gilydd
bob gair yn Gymraeg, ond mae
cymaint o Saesneg yn ein bywyd
bob dydd, mae angen rhywbeth
diddorol fel yr Eco i gadw rhwd
allan.

Diolch o galon eto a
dymuniadau gorau i bawb o
ddarllenwyr yr Eco oddi wrthym
yma am Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda.

Yr eiddoch yn gywir,
Harri, Elizabeth,
Gwyneth ac Euros Lewis
(Bryn Sardis Dinorwig gynt)



Mr. a Mrs. Evans, Lloc, Llanrug, sy'n gyfrifol am yrru'r Eco i chwi draw yn
Awstralia ac i bawb ym mhedwar ban y byd.

PENISAR WAUN

DYMUNIADAU GORAU — Anfonwn
ein dymuniadau gorau i Mr. K.
Williams, Llwyn Derw sydd newydd
ymuno â'r Llu Awyr. Pob hapusrwydd
a llwyddiant iddo.

PWYLLGOR ADLONIAN — (Maes
Chwarael) — Eleni bydd y pwyllgor yn
rhoi anrheg Nadolig i'n pensynwyr a
mae tua 90 ohonynt ym Mhenisarwaun
gan ddymuno Nadolig Llawen iddynt a
gofidio nad yw'r rhodd yn fwy. Yn lle
y rhodd hwn mi fydd aelodau Clwb yr
Heulwen yn derbyn rhodd tuag at eu
cinio Nadolig.

YMDDEOLIAD — Dymuniadau da i
Mr. Owen ar ei ymddeoliad y mis hwn.
Gweithiodd yn galed a chydwybodol
am flynyddoedd i gadw'n ffyrdd o
gwmpas Penisarwaun mor dwt a
thaclus. Gobeithir y caiff ymddeoliad
hir a hapus.

EGLWYS SANTES HELEN — Cafwyd
Arwerthiant lwyddiannus yn y Neuadd
nos Wener, Rhagfyr yr ail. Fe agorwyd
gan Mr. Tegid Roberts, Arwel, warden
y bobl. Enillwyd y raffl gan Mr.
Selwyn Griffiths, 5 Bryntirion a Mrs.
Eirlys Williams, 23 Bryntirion.
Dymuna'r Ficer ddiolch yn fawr i
bawb a helpodd a hefyd am y rhoddion
a'r arian a dderbyniwyd.

CYDYMDEIMLIR — â Mrs. Ethel
Jones, 6 Bryntirion sydd wedi colli
brawd-yng-nghyfraith yng Nghaergybi
yn ddiweddar.

RHODD — Fe roddwyd 2 Lyfr Gweddi
yn rhodd i'r eglwys er cof am Mrs.
Maddox gan aelodau Undeb y Mamau.

GWASANAETH NADOLIG — Yr unig
wasanaeth gynhelir yn yr eglwys y
Nadolig hwn yw y gwasanaeth Cymun,
y noson cyn y Nadolig (Rhagfyr 24ain)
am 11.30 p.m. Ni fydd gwasanaeth o
gwbl yn ystod y dydd ar ddiwrnod y
Nadolig.

YR YSGOL GYNRADD — Bu pedwar
o'r bechgyn, sef Dylan Williams,
Meirion Green, Rheon Larsen a
Michael Coombs yn bwrw'r Sul yng
Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn
ddechrau'r mis. 'Roedd pob un
ohonynt wedi mwynhau eu hunain yn
fawr.

Nos Fercher, Rhagfyr 21ain bydd
plant safon 1 — 4 ynghyd â rhai
oedolion brwd yn mynd i weld 'Jac y
Jynl' y pantomeim blynyddol, yn
Theatr Gwynedd, Bangor.

Cynhelir Gwasanaeth carolau yn yr
ysgol, cyn cau dros yr Ŵyl, fel rhan o'r
dathliadau Nadolig.

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN:
CAERNARFON 2898

Gwaith Coffäol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwy'r lleol

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr
Eco'r Wyddfa

CYFARCHION NADOLIG O LANBERIS



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr yr ECO



BRYSIWCH I GAEL EICH

Teganau

YN SIOP

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS FFÔN 491



NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA

oddi wrth

TOM JONES

A'R CWMNI



STORFA GIG
GLYN PADARN
LLANBERIS
(Ffôn 319)



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i chwi oll

oddi wrth

THOMAS PRITCHARD IRONMONGER

BIRMINGHAM HOUSE
A DINORWIG HOUSE
LLANBERIS

Ffôn 206



CYFARCHION
Y TYMOR
oddi wrth

Dilys Baylis

SIOP MEIRIONFA
LLANBERIS



DYMUNA

CLEDWYN A BETTY
PARRY

GLAN Y DON
STRYD FAWR
LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD

DDA
i'w
ffrindiau a chwsmeriaid oll



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

oddi wrth

Dorothy's

SIOP 'DAFEDD
A DILLAD PLANT

38 STRYD FAWR

Llanberis Ffôn: 772



Dymuna
Mr a Mrs. G. M. EVANS

CASTLE GIFT SHOPS LTD.

Llanberis (379) Caernarfon (3158)

ddiolch yn fawr i'w cyfeillion a'u cwsmeriaid
am bob cefnogaeth yn ystod 1977
gan ddymuno'n dda i bawb yn 1978



CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU

AM 1978

oddi wrth
W. J. DAVIES

MODURDY'R WYDDFA LLANBERIS



A.A. R.A.C. M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

CYFARCHION Y TYMOR

ODDI WRTH

BAWB YN

Arton Cafe

STRYD FAWR

LLANBERIS

Ffôn 475

I. ELLIS JONES MPS

FFERYLLYDD

COMPTON HOUSE

LLANBERIS Ffôn : 264

AM EICH ANRHEG NADOLIG!

GWERTHWR SWYDDOGOL

Persawriau

COTY, LENTHERIC, YARDLEY

MAX FACTOR

Ffilmiau a chamerau

AGFA, KODAK a FUJI

NADOLIG LLAWEN I BAUB!

SÊL GWELYAU!

PRISIAU DIGURO!

4 troedfedd a 4 troedfedd 6
modfedd am ddim ond £46.
Gwelyau sengl o £26.50. 'Head-
boards' am ddim. Danfon am
ddim (yng Ngwynedd). Gellwch
dalw pan gyrhaedda'r nwyddau os
dymunwch.

STANLEY DISCOUNT
FURNISHERS, LLANBERIS

(Ffôn: Padarn 366)

Hefyd ym Mhenmaenmawr

(Ffôn: 3613)

Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda


Nadolig Llawn
a Blwyddyn Newydd Laethog!

A.W. HUGHES

DYN LLEFRITH

FFARM BRON ERYRI

LLANBERIS Ffôn: 391



CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

H.E. HUGHES

a'r MEIBION



Ffôn: 444

MASNACHWYR GLO

1 BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Mr. a Mrs. W. JONES
Gwen ac Alwena

Padarn Stores

LLANBERIS

Llanberis 496

BARGEINION

Mace



CENTRAL GARAGE

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawn
a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb yn
Llanberis a'r Cylch
oddi wrth

LLANBERIS.
Ffôn: 202

NADOLIG LLAWEN A



FFASIYNAU
MERCHED

32 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn 459

BLWYDDYN NEWYDD
DDA

SIOP GOED

STRYD FAWR

Llanberis

DIOLCH I BAUB
AM GEFNOGAETH YN
YSTOD 1977 —
NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA
YN 1978



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiart

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



Annwyl Syr,

10 Glanffynnon,
Llanrug.

STAD EISIAU ENW

Hoffwn ddiolch drwy gyfrwng yr Eco i'r ugeiniau o bobl a ymatebodd i'r alwad uchod.

Yr oedd un llinell yn rhedeg drwy rhan fwyaf o'r ceisiadau sef yr enw ELAN. Ac mae'r enw a ddewisais yn cynnwys hyn.

Yr enw os y cefnogir ef gan Bwyllgor Tai Arfon fydd HAFAN ELAN

a'r person a anfonodd yr enw oedd R.O. Thomas, Gerallt, Rhes Rhythallt. Eto diolch yn fawr i bawb a ddangosodd gymaint o ddiddordeb.

Yn gywir,
G. Jones.

50 mlynedd o wasanaeth



Mr. Harri Roberts, Mr. Owen John Jones a Mr. John Williams — tri aelod o Fand Llanrug a dderbyniodd dystysgrifau am wasanaeth o dros hanner can mlynedd i Fudiad Bandiau Pres Prydain.

Allan rwan :

Hiwmor y Chwarelwr

Straeon a Cherddi Digri gan
JONI IARD (J.D. Evans)
Maes y Dre, Deiniolen

40c
Cyhoeddiadau



Bryn Mair, Dolydd
Y Groeslon, Caernarfon
(Llanwnda 830003)

YM MYD MODURO



Efallai eich bod wedi chwenychu rhyw declyn trydanol ar gyfer y modur, a digwydd bod yn lwcus i'w ganfod yn eich hosan Nadolig.

Pan yn ei weiro i'w lle, cofiwch bob amser ddefnyddio ffiws ar wahân, a'i osod cyn agosed ag sydd bosibl i darddiad y trydan. Gofalwch ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr yn ofalus. Felly byddwch yn siŵr o gael budd a boddhad o'r anrheg.

BETHEL

LLONGYFARCHIADAU — i 'Barti'r Rhos' ar ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth cyd-adrodd yn Eisteddfod Chwilog nos Sadwrn Rhagfyr 3ydd. Ffurfiwyd y parti'n arbennig ar gyfer Eisteddfod Bethel ac maent wedi penderfynu aros gyda'i gilydd i gystadlu eto. Mae'r parti yn cael eu dysgu gan Mrs. Mary Wyn Jones, Stad y Rhos.

CYDYMDEIMLO — Ddydd Gwener, Tachwedd 25 bu farw Mrs. M.J. Jones, Tan yr Ardd. 'Roedd Mrs. Jones yn 75 oed. Mae'n cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

MERCHED Y WAWR — Nos Fercher Rhagfyr 14 cafwyd noson lwyddiannus yng nghwmni Cangen y Waunfawr. Cafwyd noson o ganu carolau a swper wedi ei threfnu gan y Pwyllgor.

Dyddiadur y Mis

Ionawr 2. Llun: LLANBERIS: Cymdeithas Lenyddol Capeli M.C. yn Festri Capel Coch am 7.15 — Cyfarfod Gweddi dan lywyddiaeth Mr. H.R. Jones. Clwb Methodig Eryri. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.

4. Mercher: LLANBERIS — Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.

5. Iau: WAUNFAWR — Sefydliad y Merched. BRYNREFAIL — Y Gymdeithas Lenyddol — Darlith ar 'Hen Gymeriadau' gan Miss Mat Pritchard

6. Gwener: LLANBERIS — Clwb yr Henoed. CLWB ERYRI — Noson yng ngofal Arwel Jones

7. SADWRN: WAUNFAWR — Te Parti gan Glwb y Mamau i blant yr ardal.

Disco i'r bobl ieuanc gyda'r nos.

9. Llun — WAUNFAWR — Y Gymdeithas. LLANBERIS — Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.

11. Mercher: LLANBERIS — Clwb y Mamau yn croesawu Cangen Llanrug i'w plith.

12. Iau: LLANBERIS — Cangen Plaid Cymru — Cyfarfod cyffredinol yn y Ganolfan am 7.30. Pwyllgor Apêl Eisteddfod '79 yn Ysgol Dolbadarn am 7.30.

16. Llun: LLANBERIS — Cymdeithas Lenyddol Capeli M.C. — Cyfarfod Amrywiol dan lywyddiaeth Mrs. Hilda Wyn Williams. Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30. Clwb Methodig Eryri.

17. Mawrth: LLANRUG — Y Gymdeithas Undebol — Sgwrs gan Mr. Derfel Gruffydd, Prifathro'r Ysgol Gynradd.

18. Mercher: LLANBERIS — Bingo

dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.

19. Iau: WAUNFAWR — Clwb Gwryfai
20. Gwener: LLANBERIS — Clwb yr Henoed.

23. Llun: WAUNFAWR — Y Gymdeithas. LLANBERIS — Clwb Methodig Eryri. Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

25. Mercher: LLANBERIS — Clwb y Mamau — Noson yng ngofal Mrs. Sue Pontin.

26. Iau: LLANBERIS — Sefydliad y Merched. WAUNFAWR — Merched y Wawr.

28. Sadwrn: LLANRUG — Disco i ddathlu Gŵyl Santes Dwynwen yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Y noson dan nawdd Pwyllgor Rigarug.

30. Llun: LLANBERIS — Cymdeithas Lenyddol Capeli M.C. — 'Brethyn Cartref' gan Mr. T.H. Williams, Waunfawr.

Clwb Methodig Eryri, Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Ac yn wir i chi, mi nath. Dyma fo'n lapio llinyn un waith rownd yr amlen a'i glymu'n ddel fel dici bo.

"Dyna chi — parsel!" medda fo. "Ugain ceiniog, os gwelwch yn dda."

'Dach chi wedi sylwi fel ma'r llyfrau raffls wrthi'n codi'n slei bach i 20 ceiniog yn lle 10? 100% o godiad ydi hwnna Mistar Hili — un nôt yn ormod. A 'dyw'r gwobrau ddim fel y buon nhw 'chwaith. Rhyw sached neu ddwy o lo ydy'r gorau y gellwch ei ddisgwyl y dyddiau hyn ond ddwy flynedd yn ôl 'roedd un mudiad o Gwm-y-glo (yn addas iawn) yn cynnig "lcwt glo" yn ei raffl Nadolig. Gwobr hael iawn. A'm sied inna bron disgyn i'r llawr ar ôl y gwyntoedd mawr mi fasa'n llawer gwell gen i gael cwt i ddal y glo na dwy sached!

Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa

R. Hughes Jones a'r Mab

The Butchery
BRYN AFON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3188



Cig blasus — prisiau rhesymol

Simneiau glân am bris rhesymol gan



G. LLOYD

4 PLAS TIRION TERRACE,
LLANRUG

Defnyddir
peiriant sugno i lanhau

Ffôn: Caernarfon 4781

Cyfarchion y Tymor i chwi oll!

Maes y Mepched

CYFLAITH

'Roedd cynnal 'Noson Gyflaith' yn arferiad traddodiadol mewn rhannau o ogledd Cymru i ddathlu'r Nadolig neu'r Flwyddyn Newydd.

Yn eu tro, byddai teuluoedd yn gwahodd eu ffrindiau i'w cartrefi fin nos. Paratoent swper mawr ar eu cyfer, yn cynnwys gŵydd a phwddin Nadolig, fel rheol, ac yna byddai'r cwmni'n ymuno mewn chwaraeon, yn adrodd straeon ac yn tynnu cyflaith.

Ar ôl berwi'r defnyddiau angenrheidiol i ryw ansawdd arbennig, tywelltid y cyflaith allan ar lechen neu garreg fawr wedi ei hiro ag ymenyn. Byddid yn glanhau carreg yr aelwyd a'i hiro ar gyfer yr achlysur hwn weithiau. Yna byddai bob aelod o'r cwmni yn iro'i ddwylo ag ymenyn ac yn cymryd darn o gyflaith i'w dynnu tra byddai'n gynnes. 'Roedd hon yn grefft arbennig ac anelid at dynnu'r cyflaith hyd nes y deuai'n rhaffau melyngoch. Byddai'r dibrofiad yn edmygu medrusrwydd y profiadol ond 'roedd aflwyddiant y dibrofiad yn destun hwyl i bawb.

Hyd y gwyddom, ni chysylltid cyflaith ag unrhyw ŵyl arbennig yn y De, ond 'roedd yn arferiad gan wragedd i'w werthu o'u cartrefi neu yn y farchnad leol. 'Roedd 'dant' a 'ffani'

ymhlith yr enwau a roid arno a gwerthid ef yn ddarnau bach, tua dwy owns am geiniog.

CYFLAITH

½ pwys o driog du
½ pwys o surop
½ pwys o siwgr gwyn
¼ pwys o ymenyn

Rhoi'r cynhwysion mewn sospan fawr a'u toddi'n araf uwch gwres cymhedrol. Yna codi'r cymysgedd i'r berw a'i ferwi'n gyflym am ryw ugain munud. Rhaid ei droi drwy'r amser rhag iddo losgi.

Profi ei ansawdd ymhen yr ugain munud drwy ollwng llond llwy de ohono i lond cwpan o ddŵr oer. Os bydd hwn yn caledu yn y dŵr ar unwaith gan adael y dŵr yn hollol glir fe fydd wedi berwi digon.

Yna tywallt y cyflaith berw ar fwrdd llechen neu ddysgl sy'n dal gwres.

Iro'r dwylo ag ymenyn a thynnu'r cyflaith yn rhaffau hirion, melyn, cyn gynted ag y gall y dwylo oddef ei wres.

Torri'r rhaffau'n ddarnau bychain cyn iddynt galedu.

Rhiannon James

Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, BEM

Wrth ddyfarnu'r wobwr gyntaf i fy nhad yn Eisteddfod Y.M.C.A., Bethel, Caernarfon, 1920 dywedodd y beirniad, W.J. Gruffydd, "Dyma'r delyneg orau yn yr iaith Gymraeg".

Pwrpasol fyddai dychmygu i fy nhad fynd allan ar fore'r Nadolig a chyfarfarch Robin Goch fel hyn:

Robin Goch oedd ar ben gwal
Yn awdurdod ei ardal:
Rhudd ei gob, tarawodd gân
Â byw beraidd bib arian.
O anwyd ac anhunedd
Oerni, i'n tŷ ni mewn hedd
Eirias fu ei groeso i fad
Ochel, twymo, a chael tamad,
Gorchwyl go dost oedd gwarchod
Rhagddo'r gath, fu'i bath yn bod -
Ei hugan glos rwyg hi'n glau -
Ffei 'winedd ei phawennau!

I lawr eis i'w alw o'r hin - a'i hudo
O'i adwyth i'n cegin,
Gyda moethau geiriau gwin, -
"Mae'n bur oer mwyn bererin
Twt wyt ti, tyd at y tân
Mi rewi yma rwan.

Am y gu dôn mi gei di
Us, a briwsion, os brysi.
Robin, wyt ddiarebol - am dy goch
Am dy gân orchestol;
Go dda, wir, agwedd wrol.
Hynaws dy lun, was di lol".

Es not hyn i mwthyn mau
I'w hynt diflannodd yntau.

Er yn swil gwnaet Bob 'rwyn siŵr
Weinidog neu genhadwr
Dyro wers dda drwy y wig
I'r adar angharedig.
Dangos achos dy fron gochi
O glwyfau'r lôn ar Galfari
Trwy sêl y gwaed gwêl pob gŵr
Dy garedig Greawdwr."

"Ab arabedd' eb Robin
"Na ro goel ar eiriau gwin".


Glan Rhyddallt.

DYMUNA

WIL a MYRA PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG
(Ffôn: Waunfawr 353)
NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL



BETWS GARMON

CYSEGR HYNAFOL YN Y GOEDWIG - Ym Mhlanhigfa y Comisiwn Coedwigaeth ar lethrau dwyreiniol Moel Siabod, tua 750 troedfedd uwchlaw arwynebedd y môr yn edrych i lawr dyffryn Nant y Betws y mae adfeillion hynafol Capel Garmon.

Trwy amryfusedd plannodd y Comisiwn Coedwigaeth goed oddi fewn ac o amgylch y safle gan guddio'r lle'n llwyr, ac onibai i Mr. a Mrs. W. Vaughan Jones o'r Waunfawr fynd i chwilio am y lle i'w ddangos i'r Parch. E. Trefor Jones, Ficer, Caernarfon, Betws Garmon a'r Waunfawr, buasai'r fangre wedi ei golli yn y goedwig, - diolch i Mr. a Mrs. Jones am hyn ynte.

Pan dynnwyd sylw y Coedwigwr Mr. Peter Hughes ym Meddgelert at hyn, trefnodd yn garedig iawn i glirio'r lle, ac yn awr mae'n bosib' gweld yr hen adfail. Mesurai'r adeilad tua thair troedfedd ar hugain o'r gorllewin i'r dwyrain, ac yn ddeuddeg troedfedd o led, a'r muriau'n llathen o led ac wedi eu hadeilladu a meini trymion.

Mae ffenestr fechan yng nghanol y talcen dwyreiniol, ac ar yr ochr ogleddol rhyw saith troedfedd a hanner o'r gongl ddwyreiniol y mae drws, ar yr ochr ddwyreiniol y mae llech tua hanner llath o fesur wedi ei godi rhyw lathen oddi wrth y llawr. Tua chanllath i'r gorllewin y mae Ffynnon Sant Garmon.

Credir y defnyddiwyd yr adeilad yma fel Capel Anwes, ac y byddai Offeiriad o Briordy Beddgelert yn arfer dod yno i gynnal gwasanaethau crefyddol, ac mai yma y sefydlwyd Eglwys Sant Garmon yn yr unfed ganrif ar bymtheg.

Adeiladwyd yr eglwys bresennol yn 1842, ac oddi mewn iddi y mae bedyddfaen ac arno'r llythrennau 'Capel Sant Garmon 1614'. Credir y daeth o'r hen Gapel. Oddi mewn i fur yr eglwys bresennol mae carreg fedd gyda'r dyddiad 1753 arni.


Ychydig iawn o hanes yr Eglwys sydd ar gael ac os oes gan rywun unrhyw hanes neu wybodaeth o'r lle bydd y Ficer, Parch. E. Trefor Jones, Y Ficerdy, Maesincla, Caernarfon, neu'r Warden, Mr. Amos Jones, Bryn Afon, Betws Garmon yn dra diolchgar am y cyfryw.

O'R YSBYTY - Da deall bod Mrs. Glenys Williams, Ty'n Weirglodd, yn gwella'n foddhaol.



NADOLIG LLAWEN
a BLWYDDYN NEWYDD
DDA
I CHWI OLL ODDI WRTH

**MODURDY
MENAI**



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI
Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans

O Gaban

CHWARELWYR

YN union ar draws y llyn i Chw - nid mor adnabyddus efallai - math o gymdeithas. Chwareli G isod fe welwch luniau a dynnwyd



Chwarelwyr Bonc Giarat Bach garedigrwydd Mr. David Stanley



Hogia Bonc Shed Glynrhonwy Williams.



Gweithwyr twll Chwarel Cefn tybiwn mai oddeutu 1926 ydoe y Coed, Waunfawr.

Os oes gan rywun unrhyw ŵyl i'r Eco wybod. Hoffem wybod flwyddyn y tynnwyd y llun ola'. Mae gan y golygydd fwy o lu gânt hwythau eu dangos yn yr E

Chwarel

CHWARELI ERAILL


Dinorwig mae chwareli llechi eraill ad y rhain eto wedi cynnal yr un rhonwy a Chefn Du yw'r rhain, ac blwyddyn yn ôl o'r chwarelwyr.



Rhonwy Mai 1926. Y llun trwy ams, Caer Waun, Waunfawr.



Med 1926. Lhun Mr. David Stanley



Ni wyddys pa flwyddyn - ond lun Mr. W. Vaughan Jones, Hafod

th am y lluniau uchod - gadewch u'r dynion a sicrwydd ym mha y chwareli yma yn ei feddiant;fe ystod y misoedd nesaf.

NANT PERIS

EISTEDDFOD SANT PADARN A SANT PERIS - Llongyfarchiadau calonnog iawn i blant y Nant ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Flynyddol a gynhaliwyd ddechrau'r mis. Enillodd Parti Rita y wobwr gyntaf gyda'r Côr Adrodd. Ar wahân i hyn, cafodd y wobwr gyntaf am adrodd, a'r arholiad llafar. Yr ail wobwr am ganu, a chanu'r piano, a'r drydedd wobwr am ganu'r recorder a Rita a Jennifer yn cael yr ail wobwr am ddeuawd ar y piano. Jennifer yn cael y wobwr gyntaf am ganu'r piano, yr ail wobwr am adrodd, cyweiriadur, a'r Recorder a'r drydedd wobwr yn yr Arholiad Llafar.

David Ellis yn ennill y wobwr gyntaf am adrodd, canu a'r Arholiad Llafar, a'r ail wobwr am brawf ar y cyweiriadur. John Elis yn cael y wobwr gyntaf yn yr Arholiad Llafar.

Iwan Wyn yn dod yn gydradd gyntaf yn y gystadleuaeth offeryn chwyth. Cornet oedd ei offeryn. Ardderchog blant, yr ydym i gyd yn y Nant yn eich llongyfarch ac yn disgwyl y parhewch i lwyddo.

CYFARFOD CYHOEDDUS - Nos Fawrth, Rhagfyr 6 cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn yr ysgol i drafod codi cronfa at eisteddfod Caernarfon 1979. Dewiswyd a ganlyn yn swyddogion:

Llywydd: Mr. Ken Jones, 10 Glanrafon; Trysorydd: Mr. J.W. Elis, 8 Glanrafon; Ysgrifennydd: T.J. Roberts, Llys Awel.

Penderfynwyd ein bod yn cynnal cyfarfod ar yr ail nos Lun ym mhob mis i ddechrau gyda Noson Goffi ac adloniant dan ofal y dynion nos Lun Ionawr 8, 1978. Y merched fydd yn gyfrifol am noson gyffelyb ym mis Chwefror. Apeliwn am eich cefnogaeth fel ardalwyr i godi'r arian a osodwyd fel nod i ni yn y Nant.

MAE O WEDI CYRRAEDD - Wel pwy ydyw O? Wel, Siôn Corn, wrth gwrs. Dechrau ei daith yn y Nant nos lau, Rhagfyr 8. Cafwyd noson ddifyr yn y festri a'r plant wrth eu bodd. Diolch yn fawr Siôn Corn am alw yma yng nghanol eich prysurdeb a diolch i bawb a gyfrannodd at y draul o brynu anrhegion i'r plant. Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yng nghylch Eco'r Wyddfa.

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

W.J. GRIFFITH

**PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG**

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

**GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW**



**BP heat
A SHELL-MEX**



Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



Llawenydd oedd derbyn cerddi gan blant ar drothwy'r Nadolig fel hyn. Awgrymais droeon fod croeso cynnes i blant bob amser yn y Llannerch.

Gyda llaw mae ardal y Waunfawr yn nalgylch yr Eco ers peth amser bellach, ond does 'na'r un gerdd gan "feirdd y Waun" wedi cyrraedd y Llannerch. Mae croeso cynnes yma i chwithau hefyd;

Mae'r llinellau coll yn dylifo i mewn. Fe geir y feirniadaeth yn y rhifyn nesa'.

Diolch i Keith Parry, Llanberis am anfon y gerdd hon - cerdd a naws y 'Dolig ynddi. Disgybl yn Nosbarth 1P Ysgol Brynrefail yw Keith.

Y GENI

Nid oedd lle mewn llety

I eni baban Mair,

Ganwyd ef mewn preseb

Yn y gwair.

Bugeiliaid gyda'u defaid

Yn gwyllo ar y bryn,

A gweled yr angylion

Yn dod â'r newydd syn.

Dilynodd y doethion y seren fawr

Dros fryn a dâl, awr ar ôl awr,

I roi eu hanrhegion i faban Mair

A gysgai yn dawel ar wely o wair.

Keith Parry

A dyma gynnig bardd ifanc arall o'r un teulu. Yn Safon II Ysgol Dolbadarn mae Mark Wynne Parry a'r "Nadolig" yw testun ei gerdd ef. Diolch yn fawr Mark a Nadolig Llawen iti a holl blant Ysgol Dolbadarn.

Y NADOLIG

Daeth 'Dolig arall heibio

A daw 'rhen Santa Clos,

Â llawer o anrhegion

I blant yn ystod y nos.

Cafodd baban ei eni

Mewn stabal ym Methlehem dref,

A daeth y doethion bob cam o'r

Dwyrain

A'u hanrhegion iddo Ef.

Daeth y bugeiliaid hefyd

I weled baban Mair

A syllu arno'n cysgu

Yn dawel yn y gwair.

Mark Wynne Parry

Go dda Mark a Keith, - daliwch ati, a chofiwch anfon rhagor i'r Llannerch yn ystod 1978.

I gloi'r golofn am y flwyddyn dyma garol newydd, am y tri Santa Clos cynta' fu 'rioed.

Y TRI GŴR DOETH

Pwy sydd yn dyfod dros ael y bryn

Ar gefn eu camelod i lawr drwy'r glyn

Ac ôl eu traed yn yr eira gwyn?

Y tri gŵr doeth.

Pwy sydd yn dod i'w addoli Ef

Gan ddilyn seren ddisgleiria'r Nef

O'r Dwyrain draw i Fethlehem dref?

Y tri gŵr doeth.

Pwy sy'n penlinio wrth wely o wair

Yn y beudy llwm heb sibwrdd gair

Gan roddi anrhegion i Faban Mair?

Y tri gŵr doeth.

Pwy sy'n dychwelyd i fyny'r glyn

Ar gefn eu camelod dros ael y bryn

Ac ôl eu traed yn yr eira gwyn?

Y tri gŵr doeth.

Selwyn

Oes posib cael alaw iddi? Ia yr un yw'r stori ynte. Yr un hen stori ond mae'n aros mor newydd o Ddolg i Ddolg.

Manteisiaf ar y cyfle i ddymuno Nadolig Llawen a blwyddyn newydd lwyddiannus a hapus i holl ddarlennwyr y golofn. Diolch am eich llythyrau a'ch geiriau caredig, a chofiwch anfon eich cerddi yn ystod 1978.

Hwyl fawr,

Selwyn.



Dymuna Ian a Vida Harris,
Ethel a'r genod

**GWESTY
ERW
FAIR**

LLANBERIS Ffôn: Llanberis 238

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

i'w cyfeillion oll

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.



LLANBERIS

MARWOLAETH — Nos Fawrth, Tachwedd 29ain yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor bu farw Mrs. Jane Bryan Hughes, Bryn Hyfryd, yn 80 mlwydd oed. 'Roedd Mrs. Hughes yn gymeriad hynod dawel a dymunol, ac yn gymdogaes garedig. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w theulu.

FFAIR NADOLIG — Pnawn Gwener, Tachwedd 2ail cynhaliwyd Ffair Nadolig yn y Ganolfan Gymdeithasol gan bwyllgor Clwb yr Henoed. Cafwyd prynhawn hynod lwyddiannus. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i siopwyr a thrigolion y pentref am eu cyfraniadau ardderchog.

FFARWELIO — Yn ystod y mis hwn, bydd Mr. a Mrs. Harri Wyn Roberts, 2 St. Thomas a'u teulu yn ymadael o'r pentref. Maent yn symud i fyw i Gaerdydd. Pob lwc Peggy a Harri yn eich tŷ newydd.

LLONGYFARCHION — i Ieuan a Ruth Lloyd Roberts (Prestatyn) ar enedigaeith eich merch fach, Mari.

YN YR YSBYTY — Dymunwn adferiad buan i Mr. Stanley Owen, Tŷ'r Ysgol. Mae Mr. Owen yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

LLONGYFARCHION — i Miss Lola Parry, Bontnewydd (gynt o St. Newton) ar fod yn llwyddiannus yn ei harholiadau nyrsio.

DIOLCH — Dymuna Eric Humphreys (gynt o Lanberis) ddiolch o galon am y caredigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei waeledd.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda, a bendith Duw arnoch i gyd.

EISTEDDFOD — Nos Wener, Rhagfyr 2 cynhaliwyd Eisteddfod Eglwys St. Padarn a St. Peris yn Neuadd yr Eglwys.

Y beirniaid oedd: Cerdd: Y Parch. Gwynfor Williams, Llanrug. Adrodd: Y Parch. Deiniol W. Edwards, Llanllechid. Arholiadau Llafar: Y Parch. Jeffrey Hughes, Caernarfon.

Llywydd y cyfarfod oedd Mr. Derek Jones, Llanberis, ac arweiniwyd gan Mr. Evan Owen.

Yr enillwyr oedd:

Canu: Dan 5: 1. Elwyn Foulkes, David Ellis, Mark Jones, Llifon Foulkes, Kevin Edwards. Dan 6: 1. Vera Lynne Jones; 2. Alice Jones; 3. Cheryl Edwards a Ceri Lynne Parry. Dan 7: 1. Alison Edwards; 2. Belinda Griffith. 8-10: 1. Catrin Lennon; 2. Mark Wayne Jones; 3. Fiona Jones. 10-12: 1. Lynne Jones a Margaret Morris; 2. Rita Wyn Jones. 12-14: 1. Ruth Lennon a Delyth Parry. Dan 18: 1. Ruth Lennon; 2. Rhiannon Pritchard; 3. Delyth Parry a Margaret Morris; 4. Lynne Jones.

Adrodd: Dan 5: 1. Kevin Edwards; 2. Mark Jones; 3. Llifon Foulkes; 4. Elwyn Foulkes a David Ellis. Dan 6: 1. Alice Jones; 2. Ceri Lynne Parry a Vera Lynne Jones; 3. Cheryl Edwards. Dan 7: 1. Alison Edwards; 2. Belinda Griffith a Tony Jones. 8-10: 1. Mark Wayne Jones; 2. Catrin Lennon a Jennifer Ellis; 3. Fiona Jones ac Ian Edwrds. 10-12: 1. Margaret Morris a Rita Wyn Jones. 12-14: 1. Delyth Parry. Dan 18: 1. Delyth Parry.

Cyd Adrodd: Parti'r Nant. Unawd Piano: Dan 10: 1. Jennifer Ellis, 2. Fiona Jones; 3. Catrin Lennon. 10-12: 1. Lynne Jones; 2. Rita Wyn Jones; 3. Alison Roberts ac Ian Roberts. 12-14: 1. Ruth Lennon; 2. Delyth Parry. Deuawd Piano: 1. Delyth a Rhiannon; 2. Carys a Dilys a Jennifer a Rita.

Chwarae Tŷn Emyr: 1. Ruth Lennon, Carys Jones a Delyth Parry.

Unawd Recordiau: 1. Fiona Jones; 2. Catrin Lennon a Jennifer Ellis; 3. Rita Wyn Jones. Clarinet: 1. Paula Jones; 2. Delyth Parry. Ffliwt: 1. Ruth Lennon; Cornet: 1. Iwan Pritchard. Unawd gyda'r Gitâr: 1. Ruth Lennon. Grŵp

Pop: Cantorion Padarn. Canu Penillion: 1. Catrin Lennon; 2. Ruth Lennon; 3. Delyth Parry a Rhiannon Pritchard. Deuawd: 1. Ruth Lennon a Carys Hughes; 2. Delyth Parry a Rhiannon Pritchard; 3. Lynne Jones a Dilys Jones.

Modulator 3-8 oed: 1. Alison Edwards; 2. Belinda Griffith a Cheryl Edwards. 8-10: 1. Catrin Lennon; 2. Fiona Jones. Dan 11: 1. Lynne Jones; 2. Margaret Morris a Rita Wyn Jones; 13: 1. Ruth Lennon a Delyth Parry. Arholiadau Llafar: Dan 5: 1. John Douglas Ellis. 6-8: 1. Vera Lynne Jones; 2. Cheryl Edwards; 3. Alison Edwards. 8-10: 1. Mark Wayne Jones; 2. Ian Edwards; 3. Catrin Lennon. 10-12: 1. Rita Wyn Jones; 2. Margaret Morris a Lynne Jones. 12-14: 1. Ruth Lennon; 2. Delyth Parry.

Dyfarnwyd y Gwpan am y gwaith gorau yn yr Arholiadau Llafar i Mark Wayne Jones ac aeth y Gwpan am y marciau uchaf yn yr Eisteddfod i Ruth Lennon a Delyth Parry yn ail yn cael y Fedal.

PRIODAS AUR — Dathlodd Mr. a Mrs. William John Jones, 8 Plas Tirion Bungalows, eu priodas aur ar 24 o Ragfyr. Priodwyd hwy yng Nghapel Bryn Rhodyn yn 1927.

Llongyfarchion gan y teulu.

GENEDIGAETH — Llongyfarchiadau i Bryn a Nerys Jones, Stryd Newton ar enedigaeth mab ddydd Gwener, Rhagfyr 9.

CYDYMDEIMLO — Yn sydyn nos iau, Rhagfyr 8, bu farw Mr. William Lucas, 19 Dôl Elidir. Cydymdeimlwn â Mrs. Annie M. Lucas a'r teulu.

4 Cenhedlaeth



Mrs. Lucy Roberts, (hen-nain) 1 Charlotte St.; Mrs. Gaynor Edwards, (nain), 5 Bethesda St.; Mrs. Sheila Shreder, (mam), Chicago, UDA a Susan Shreder (1½ oed).



TAMAIID I'R DRAENOG

Aeth gwraig o un o ardaloedd *Eco'r Wyddfa* i brofedigaeth go fawr, pan ddarganfu ar ei ffordd o oedfa'r bore ei bod wedi colli un o'i chlust-dlysau. Dychwelodd yn ôl i'r capel a chwilio yn ddyfal dan y sedd ond i ddim pwrpas. Dychwelyd gartref ac fel y wraig a'r dryll arian chwilota gartref wedyn rhag ofn iddi fod wedi ei golli cyn cychwyn, ond i ddim pwrpas. Ond fe'i cafwyd. Ym mhle? Wel, y gŵr ddaeth o hyd iddo ym mroncysyllte y wraig.

DINORWIG

CYDYMDEIMLO — Bu farw Mr. Humphrey Williams, 10 Maes Eilian ar Dachwedd 25. Estynnir ein cydymdeimlad llwyraf â'i weddw Mrs. E. Williams, y plant, a'r wyrion a'r cysylltiadau teuluol eraill yn eu profedigaeth.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL — Nos Fercher, Tachwedd 30 yn y Ganolfan dan nawdd y Gymdeithas cafwyd sgwrs a ffilmau gan Mr. Ieuan Owen, Caernarfon, ar ei daith yn Chwaraeon Olympaidd y Gymanwlad yn Munich yn 1972. Mwynhawyd y sgwrs yn fawr. Llywyddwyd gan Mr. David L. Hughes, a thalwyd y diolchiadau gan Mr. R.H. Williams.

Nos iau, Rhagfyr 1af ymwelodd yr aelodau a Chymdeithas Lenyddol Brynrefail. Cymerwyd rhan mewn cwis wedi'i threfnu gan Mr. Cledwyn Williams, Llanrug. Mwynhawyd te a bisgedi wedi'u paratoi gan chwiriwyd Brynrefail. Treuliwyd rhan o'r noson hefyd yn cyd-ganu emynau. Llywyddwyd gan Mr. David Ellis. Talwyd y diolchiadau gan Mr. R.E. Williams, a Mr. O.R. Williams, o gymdeithas Dinorwig.

"CANIADAU GORONWY" — gan Mr. Owen Daniel, Cae Goronwy, Dinorwig a choffâu marw y Parch. John Roberts, (Ieuan Gwyllt) yn 1877 wedi cymryd lle eleni. Diddorol sylwi fod "Pryddest Goffadwriaethol" amdano wedi ei chanu gan awdur y "Caniaidau" gogyfer â Chyfarfod Llenyddol Rehoboth, Nant Peris yn 1878. Brodor o Ddinorwig ydoedd yr awdur wedi ei eni yng Nghae Goronwy, ar 6ed o Ragfyr 1851. Bu farw 13 Gorffennaf 1878. Bregus fu ei iechyd. Ymddiddorai mewn cyfansoddi barddoniaeth yn null yr oes honno. Bwriadai fynd i bregethu, ond fe'i rhwystrwyd oherwydd ei iechyd. Cofiant byr iddo yw'r llyfr "Caniaidau Goronwy" gyda detholiad o'i waith barddonol gan y Parch. G. Tecwyn Parry, Llanberis. Mae ganddo linellau ar yr "Elidir a'i Chyfoeth", sy'n clodfodi llechi chwarel Dinorwig.

NOSWYL Y FLWYDDYN NEWYDD — Unwaith eto mae blwyddyn arall bron a dod i ben. Er mwyn ffarwelio â'r hen flwyddyn a chroesawu'r flwyddyn newydd cynhelir Noson Lawen yn y Ganolfan Gymdeithasol ar nos Sadwrn Rhagfyr 31 am 9.00 o'r gloch. Felly cofiwch ddod er mwyn i ni gael dathlu gyda'n gilydd fel ardalwyr. Bydd paned o de ar gael yn ystod y noson.

CRONFA EISTEDDFOD GEN-EDLAETHOL CYMRU — Y swm arian sydd wedi dod i law y trysorydd at y gronfa uchod i fyny i Ragfyr 6ed yw £74, sef £40 gan bobl ifanc yr ardal a £34 yn y casgliad o dŷ i dŷ.

Rhaid cofio fod targed Dinorwig a Fachwen yn £550.

DYMUNO'N DDA — Ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs. Jennie Jones, Cegin wedi triniaeth lawfeddygol ym Mangor.

PRIODI — Yng Nghaernarfon, Rhagfyr 3ydd, priodwyd Mr. David R. Jones, Craig Bela, Fachwen, a Miss Heulwen Thomas, 9 Bro Elidir, Dinorwig. Pob bendith iddynt yn eu bywyd newydd.

ARCHEBWCH ANGHENION
Y NADOLIG RWAN YN

STORFA

**Mace
S.&E.
Jones
Llanrug**

FFÔN: Caernarfon 2790

BLODAU A FFRWYTHAU
YW EIN
HARBENIGRWYDD

S. JONES

CYFANWERTHWR

FFRWYTHAU

(WHOLESALE
FRUITERER)

Y STORFA

LLANRUG

FFÔN

CAERNARFON 2790

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

Eric Morris



**Bwsiau Arfon
LLANRUG**

FFÔN

WAUNFAWR 254

LLANRUG

CYMDEITHAS CHWIORYDD (Capel Mawr) — Nos iau, Rhagfyr 1af cafwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn. Rhoddwyd y coffi gan Mrs. Williams, 10 Glanmoelyn, Mrs. Griffith, 19 Glanmoelyn, Mrs. Williams, Tremallt, Mrs. Jones, Y Fedwen, Mrs. Jones, Madryn, Mrs. Jones, 5, Rhosrug, Mrs. Davies, Plas Gwyn a Mrs. Parry, Morannedd. Diolchodd Mrs. Nansi Roberts, Anedd Wen i bawb am eu cefnogaeth ac am y rhoddion a dderbyniwyd. Mr. John Williams, Gwledfa oedd wrth y drws.

BEDYDD — Yn oedfa'r bore, Rhagfyr 4ydd, yng Nghapel Mawr, bedyddiwyd Lynne Marie, merch fach Mr. a Mrs. Leon Schudlak, Trem Elidir, Stad Minffordd. Gweinyddwyd gan y Parch. W.O. Roberts.

Y GOBEITHLU — Cynhaliwyd cyfarfod o dan lywyddiaeth Mrs. W.O. Roberts a Mrs. Mair Jones yn cyfeilio. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Anwen Davies, Llwyn. Dangoswyd dwy ffilm, gyda Mr. John Williams yn gofalu am y taflunydd. Cyfeiriodd y Parch. W.O. Roberts at y rhodd werthfawr a dderbyniwyd oddi wrth Mr. Stanley Roberts (Eryri) ar gyfer Parti Nadolig y plant. Diolchwyd yn gynnes iddo am ei haelioni cyson ac anfonwyd cofion y plant ato. Mae Mr. Roberts yn athro yn Brunei.

UNDEB Y MAMAU — Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Sant Mihangel brynhawn iau, Rhagfyr 1af, dan arweiniad y Rheithor. Darlennyd y llihoedd gan Mrs. Williams, Llys Llywelyn, Mrs. S. Jones, Y Storfa, Mrs. Pierce, Glan'rafon, Mrs. Williams, Y Rheithor a'r Rheithor. Canwyd dwy garol gan Miss C.J. Roberts, Y Fron. Yr organyddes oedd Mrs. R.J. Owen, Glasdy. I ddilyn y gwasanaeth paratowyd lluniaeth gan Mrs. Williams yn y Rheithordy.

O'R YSBYTY — 'Rydym yn falch o gael croesawu Mrs. Ellis Griffiths, Fron Ganol yn ôl o'r ysbyty yn Lerpwl. Da yw deall ei bod yn gwella'n foddhaol a mawr hyderwn y bydd yn ôl yn ein plith cyn bo hir iawn. Ar hyn o bryd mae'n aros gyda'i chwaer yng Nghaernarfon.

Croeso adref o'r ysbyty hefyd i John Trevor, Garej Hafod.

PLAID CYMRU — Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cangen Llanrug a'r cych o Blaid Cymru, nos Wener, 25ain o Dachwedd yn y Sefydliad Coffa. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hymateb haelionus i'r apêl am swm sylweddol i sicrhau pryniant Swyddfa newydd yn y Brifddinas, ac hefyd am eu ffyddlondeb ariannol i'r cwota ar gyfer Swyddfa Caernarfon.

Etholwyd swyddogion newydd a phwyllgor am y flwyddyn. Bu trafodaeth ar faterion polisi. Mynegwyd anniddigrwydd gan nifer o aelodau ynglyn a phenodiadau i swyddi yng Nghyngor Sir Gwynedd a'r Awdurdod Iechyd. 'Roedd tystiolaeth fod estroniaid yn cael eu penodi yn hytrach na ymgeiswyr lleol cymwys. Clywyd sibrydion fod yr Awdurdod Iechyd wedi archebu Moduron Ambiwlans heb arwyddion dwyieithog yn groes i bolisi'r Sir. Penderfynwyd i'r Ysgrifennydd ysgrifennu at yr Awdurdodau i wrthdystio.

PARTION DIFFODD TAN, LLANRUG — Yn ystod streic y diffoddwyr tân, mae Swyddog Gwasanaethau Argyfwng, Cyngor Sir Gwynedd wedi trefnu yswiriant dros y gwirfoddolwyr sydd yn aelodau o dimau diffodd tân lleol, ac yn troi allan ar alwad ac arolygiaeth y Wardeiniaid sef W.A. Jones, Y Dalar Deg neu Ifor Williams, Bryniau Fawng (dau gyn-

ddiffoddwr tân profiadol). Ar wahân i'r ychydig sydd wedi cynnig eu gwasanaeth; adeiladwyr, perchnogion a staff y modurdai lleol ydyw'r timau hyn, ac mae'r Cyngor Sir wedi sicrhau y byddant yn digolledu'r rhai a ofynnir iddynt ddefnyddio eu hoffer tân oherwydd galwad gan y Wardeiniaid. Byddai o gymorth mawr i'r timau petai pawb yn gosod bwced o ddŵr tu allan i'w drws ffrynt a cheisio gwylbodaeth lle mae ysgollon da ar gael i'r diben o achub rhywun mewn trafferthion yn y llofft.

YSGOL SUL (Pontrhyallt) — Mwynhaodd y plant eu parti Nadolig ddydd Sul, Rhagfyr 4ydd a drefnwyd gan athrawon yr Ysgol Sul, gyda rhieni'r plant yn eu cynorthwyo. Ar ran yr Ysgol Sul, cyflwynodd yr Arolygwr, Mr. Gwynhaf Owen, Ferndale rodd ariannol i bob un. Cafwyd gair gan y Parch. W.O. Roberts a Mr. Glynne Owen yn mynegi diolch am ffyddlondeb y plant a'u hathrawon i'r Ysgol Sul. Diolchodd Carol Regan ar ran y plant.

MARW — Ddydd Llun, Tachwedd 28ain yn 91 mlwydd oed bu farw Mrs. Catherine Roberts, a drigai gyda'i merch a'i mab-yng-nghyfraith yn Fron Hyfryd. Hanai o Dŷ Gwyn, Caeathro. Bu am rai blynyddoedd yn gofalu am Dŷ Capel Seilo, Caernarfon. 'Roedd yn un o aelodau hynaf Capel M.C. Pontrhyallt. Bu ei hangladd ddydd iau, Rhagfyr 1af, pryd y gwasanaethwyd yn y ty ac ym mynwent Caeathro gan y Parch. W.O. Roberts. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyrfa â'r teulu yn eu profedigaeth.

CYMDEITHAS UNDEBOL (Bryngwyn Hermon, Pontrhyallt a Than-y-coed) — Yn ddiweddar, bu y Parch. Gareth Maelor Jones yn sôn am y Cartref yn y Bontnewydd. Ef yw Warden ac Ysgrifennydd y Cartref. Llywyddwyd gan Mrs. M. Lloyd Williams, Llys Awen a thalwyd y diolchiadau gan Miss M. Humphreys, Cadnant a'r Parch. W.O. Roberts.

Ar y 6ed o Ragfyr cafwyd cyfarfod o safon uchel yng nghwmni Mrs. Megan Roberts, Gregynog a'i mab Gwyn Meirion. Cafwyd detholiadau ar y Trwmped gan Gwyn, ynghyd â deuawd gyda'i fam, ac amryw ganeuon. Yn ogystal rhoddodd Mrs. Roberts amlinell i'r o hanes y delyn, a chanodd alawon arni. Y llywydd oedd Mrs. E. Wh. Thomas, Dolwar a diolchwyd gan Mrs. C. Williams, Gwelfryn.

PLAID LAFUR — Nos Wener, Tachwedd 25ain cyfarfu'r Gangen Leol o dan lywyddiaeth Mr. R.T. Pritchard. Croesawyd aelodau newydd gan y llywydd. Etholwyd swyddogion am y flwyddyn 1978. Cadeirydd: Mr. R.T. Pritchard, Ty Newydd; Is-Gadeirydd: Mr. Glyn Owen, Llys Eryri; Trysorydd: Mr. Alfred Parry, Bryn Heli; Ysgrifennydd: Mr. Gareth Williams, Fron Olau; Ysgrifennydd Tocynnau Aelodaeth: Mr. John Williams, Gwledfa.

Cangen y Merched: Cadeirydd: Mrs. Catherine Owen, 1 Ffordd Glanffynnon; Ysgrifenyddion: Mrs. Mai Davies, Bod Awel a Mrs. Mai Parry, Bryn Heli.

Trefnwyd i'r Darpar Ymgeisydd Mr. Melfyn Hughes, L.I.B. i ymweld â'r ardal yn y flwyddyn newydd.

Derbyniwyd gwahoddiad gan Gangen Lafur Deiniolen i gyfarfod arbennig yn Ysgol Gwaun Gynfi am saith o'r gloch, nos Fercher, Rhagfyr 14eg pryd y siaredir gan Mr. Idwal Edwards, cyn-ysgrifennydd rhanbarthol yr Undeb T.G.W.U. ar 'Silicosis'.

CRONFA RIGARUG — Rhagfyr 16 bydd Disco i blant Ysgol Gynradd Llanrug — manylion i'r plant yn yr

ysgol.

Ionawr 28 yng Ngwesty Victoria, Llanberis — Disco i ddathlu Gŵyl Santes Dwynwen, Nawddsant Cariadon Cymru. Ticedi £1.75 ar gael gan yr ysgrifennydd ar ôl y Nadolig.

Gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r uchod yn ffenestri'r siopau yn ystod mis Ionawr.

DIOLCH — Carai Mrs. Jennie May Jones, 1 Gorffwysfa, Llanrug ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd yn ystod ei harhosiad yn yr ysbyty ddwywaith.

WAUN FAWR

CLWB GWYRFAI — Cynhaliodd aelodau'r clwb eu Gwasanaeth Carolau yng Nghapel Croes-y-waun, ddydd iau, Rhagfyr 1. Trefnwyd y gwasanaeth gan y Parch. E. Trefor Jones a Mr. Idris Humphreys.

MERCHED Y WAWR — Bu aelodau o'r gangen yn ciniawa ym Mhlas Tandinas, nos iau, Tachwedd 24. Ar ôl gwledd flasus trefnwyd 'Ymryson y Beirdd' gan y llywydd, Mrs. Gillian Wyn, a'r ysgrifennydd, Mrs. Jean Jones. Ddechrau'r flwyddyn, Ionawr 26 daw Mr. Derec Rees o Gaernarfon i sôn am Drin Gwallt.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Yng nghyfarfod nos iau, Rhagfyr 1 cafwyd arddangosfa o sut i addurno Teisen Nadolig gan Mrs. Rose Ann Hughes, Trefeilian. Aeth yr aelodau i Gastell Cidwm am eu Cinio Nadolig nos Fawrth, Rhagfyr 6.

Y BLAID — Cynhaliwyd Ffair Nadolig amrywiol a bywiog iawn yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Rhagfyr 2. Enillwyd un raffl gan Miss Valerie Lewis, Ael-y-bryn, Mrs. Catherine Jones, Bryn Derwen a Mr. Gareth Jones, Bodhyfryd, a raffl arall gan Mrs. T.A. Thomas, Haulfryn. Y mae'r pwyllgor yn diolch am gefnogaeth sylweddol.

CAU SIOP EILIAN — Ar ôl 30

mllynedd o gadw siop yng Nghroes-y-waun mae Mr. a Mrs. E. Wyn Jones, Bron Eifion yn bwriadu rhoi gorau i'r busnes ddiwedd y flwyddyn. Fe fydd yn chwith heb siop Wynn, ond dymunwn ymddeoliad hapus iddynt.

YR EGLWYS — Fe fydd cloch Eglwys Sant Ioan yn canu eto'r Nadolig yma ar ôl bod yn fud am beth amser. Gweithwyr Cynllun Crau Gwaith y Sir fu'n gyfrifol am ei hatgyweirio.

Yng Ngyrfa Chwist yn Ystafell yr Eglwys y prif enillwyr oedd: Mrs. Williams, Dolwar Fach, Mrs. T.A. Thomas, Haulfryn, Mrs. K. Hughes, Llys Meredydd, Mr. P.J. Evans, Preswylfa, Mr. Jones, Groeslon a Mr. R. Jones, Llwyn Onn.

YR YSGOL FEITHRIN — Cynhaliodd yr Ysgol Feithrin Fore Goffi yn Ffestri Croes-y-waun ddydd iau, Rhagfyr 8 a gwnaed elw da.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL — Nos Lun, Rhagfyr 5, cafwyd sgwrs ar hen hanes y Waun hyd ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gan Mr. W. Vaughan Jones. Llywyddwyd gan Mr. Emlyn Davies a thalodd Mr. Robert Williams, Rhos Bodrual y diolchiadau.

O'R YSBYTY — Yr ydym yn falch o weld Mrs. Cotton, Bryn Hyfryd; Mrs. Griffith, Bronallt; Mr. Robert Jones, Tan-y-fron a Sandra Roscoe wedi dod o'r ysbytai. Dymunwn adferiad buan iddynt.

LLONGYFARCHIADAU — i Mr. a Mrs. W.R. Jones, Anwyllfa (gynt Miss Susan Pierce) ar enedigaeth geneth fach.

CYDYMDEIMLWN — â Mr. a Mrs. R.L. Parry, Eilian Terrace yn eu profedigaeth o golli chwaer Mr. Parry trwy ddamwain yng Nghaernarfon.

A hefyd â Mrs. J.G. Parry, Hafod-y-Rhug a gollodd ei chwaer-yng-nghyfraith, Miss Lizzie Parry, Bod Hyfryd. Yr oedd Miss Parry yn 96 oed, yr hynaf yn y pentref, ac wedi byw yma ar hyd ei hoes. (Ymddangosodd ei llun hi a'i brawd, Mr. Griffith Parry, Hafod-y-Rhug yn Ecor'r Wyddfa rai misoedd yn ôl. 'Roedd y ddau'n aelodau o'r hen Gwmni Drama yn Llanrug. Hi, mae'n debyg, oedd yr unig un ar ôl.)

Recordiau Newydd Nadolig Sain

HOGIA'R WYDDFA yn Taro Deuddeg

DAFYDD IWAN

JAC A WIL cyfrol 3

HEFYD RECORDIAU NEWYDD gan

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL

20c

Getir cael gosyniad o 20c ar bob Record hir a Chaset Sain gyda'r Tocyn yma. Un Tocyn yn utg ar gyfer pob Record.

SAIN 1111D
Dreth o ganeuon newydd gan y grŵp mwyaf poblogaidd yn hanes canu pop Cymru!

SAIN 1108H CARLO a Chaneuon Eraill - Rhagor o ganeuon cynnar Dafydd Iwan, gydag Edward, yn cynnwys CARLO, SRO AFALLON, Y DYN FWYSIG, MAEN WLAD I MI, a llawer mwy!

SAIN 1109H [R. GAD] MAENNA LE YN TY NI Y "WESTERN MAIL", PEINTIO'R BYD YN WYRDD, PAM FOD EIRA YN WYN, MYN DUW, WELI DI CYMRU, ac ati. 14 o ganeuon gorau DAIFYDD IWAN ar un record fendigedig!

SAIN 1110D YN ÔL I GWYM RHYD Y RHOSYN - DAIFYDD IWAN ac EDWARD 17 o ganeuon i'r plant, a stori, gyda threfn eniau a lluniau Gwledd o record i ddilyn "Fusch chi noed yn mono"

SAIN 1112H ARFER MAM, ANTI LISA, MI GLYWAF DYNER LAIS, BLE MAE FY MACHEN HOFF, ac ati.

GRŴPIAU POP SHAWN - AR GARLAM! MYNEDIAD AM DOIM - Rhwng 7 stôl HERGEST

PARTION CņR TELYN TEILO CņR GENETHOD Y RHOS PARTIR BRENG

UNAWDWYR ELWYN JONES (Llanbedrog) - A yw fy Enw i Lawr? DENNIS O'NEILL MEREDYDD EVANS - 28 o ganeuon gwerin.

CYMANFAEODD CYMANFA EISTEDDOD WRECSAM '77 CYMANFA CORAU UNEDD SŶN CYMANFA ANHYBRYWYR LLŴ AC EIFIONYDD CYMANFA CņR EISTEDDOD CAERDYDD

AMRYWIOL TRADDODIAD GWERIN CYMRU 1 CAROLAU FLYGAIN

Smithy Garage

WAUNFAWR

(W.M. Catt)

Petrol, gwasanaethu a
thrwsio ceir

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb o'n
cwsmeriaid.

Ffôn: Waunfawr 518

NADOLIG LLAWEN
a BLWYDDYN NEWYDD
DDA

oddi wrth bawb
ym



BYSIAU I'W LLOGI

Ffôn: Waunfawr 226

Cyfarchion yr Wyl
oddi wrth



Bara Cartra
Brown, gwyn a brith
Pastai a theisennau
O'r popty ddaw yn syth

Ffôn: Waunfawr 239

Modurdy PANT WAUN

WAUNFAWR
(John Ferrareze)



GWASANAETH
TORRI-LAWR
A THRWSIO CEIR
Profion M.O.T.
Trin panelau ac ati

Ffôn: Waunfawr 524

Dymuna
E.A. a W. WALTER
Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
i'w cyfeillion a'u
cwsmeriaid oll

Swyddfa Bost

Nwyddau Groser, Ffrwythau
a Llysiau Ffres

Ffôn: Waunfawr 221

T.A.Thomas Ltd.

(ADEILADWYR)

OFFER Tŷ A GARDD
"Tŷ NEWYDD"
WAUNFAWR

Papurau newydd ar werth
o ddechrau'r flwyddyn

Ffôn: Waunfawr 276

PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN
(Wzun Agricultural Engineering)

Owen Owen

Ffôn: WAUNFAWR 253



- Offer amaethyddol o bob math
- Haearn addurn ar gyfer y tŷ

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda !

R. EDWARDS Cigydd



DEWCH HEIBIO AM DRO
AM GIG GORAU'R FRO !

Ffôn: WAUNFAWR 521

EVAN DAVIES

Gwerthwr Glo



Ffôn: WAUNFAWR 341

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD GYNNES
I'N CWSMERIAID I GYD !

HOGIA'R WYDDFA

yn Taro
Deuddeg

SAIN 1111D
Dwsin o ganeuon newydd gan y grŵp mwyaf
pobllogad yn hanes canu pop Cymru !



CEUNANT

CYDYMDEIMLAD — Mae'n cyd-ymdeimlad llwyr â Mrs. Pegi Lloyd Jones, Hafod Owen yn ei phrofed-igaeth o golli ei brawd Mr. Edgar Lloyd yn Awstralia. Ein cydymdeimlad dwysaf hefyd â Mrs. A.L. Parry, Bod-


afon ar farwolaeth ei brawd yn Rhos-gadfan.

FFARWELIO — Deallwn fod Mrs. Jennie Jones, Tan-y-ffordd gynt, wedi dychwelyd i'w chartref yn Sydney, Awstralia.

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda